

# Adroddiad ar y Rhyngwyd ar gyfer

## Cyngor Cymuned Llandrillo

### Contents

Ystadegau'r Ardal Leol .....	2
Eiddo Gwyn .....	2
Gosod Band Eang Ffeibr drwy nawdd Llywodraeth Cymru .....	3
Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol .....	4
Cynllun Ffeibr i'r Adeilad Trefi Dinasoedd a Bwrdeistrefi Rhaglen Ffeibr yn Gyntaf Openreach .	5
Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU .....	6
Partneriaethau Ffeibr Cymunedol yn yr ardal .....	7
Mathau o Gysylltiad Rhyngwyd.....	8
Atebion Openreach.....	8
Colled Signal ADSL – Cyflymder v Pellter .....	8
Colled Signal Ffeibr i'r Cabinet – Cyflymder v Pellter.....	9
Atebion amgen ac arafach .....	10
Cymhariaeth Cyflymder .....	11
Diwedd oes rhwydweithiau copr: .....	11
Sut i gael cysylltiad Ffeibr.....	11
Opsionau Cyllido.....	13
Cynllun Taleb Gigabit Gwledig y DU.....	13
Talebau Atodol Gigabit Cymru.....	14
Cynllun Allwedd Band Eang Cymru .....	14
Cronfa Band Eang Lleol .....	14
Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol .....	14

## Ystadegau'r Ardal Leol

### Eiddo Gwyn

Nifer y tai/adeiladau (heb gynnwys carafannau)

**87**

Nifer yr adeiladau gwyn sy'n gymwys am Dalebau Gigabit

**87**

***Diffiniad o Adeilad Gwyn:***

*Adeilad heb fynediad i fand eang dros 30Mbps a dim cynlluniau iddo fod ar gael o fewn tair blynedd.*



*Map o Adeiladau Gwyn yn Ardal y Cyngor Cymuned*

Gosod Band Eang Ffeibr drwy nawdd Llywodraeth Cymru  
Rhaglen Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf

Bydd cynllun gosod band eang Ffeibr Llywodraeth Cymru ac Openreach yn gosod band eang Ffeibr mewn 39,000 o adeiladau ar draws Cymru gan ddefnyddio £56m o arian cyhoeddus. Bydd wedi'i osod mewn 1862 o adeiladau erbyn mis Mehefin 2022.

Nifer yr adeiladau

0





## Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU

Datgelodd Llywodraeth Cymru bod 'hyd at' 234,000 o adeiladau a busnesau gwledig anodd cyrraedd atynt wedi'u dynodi fel bod 'o bosibl fewn y cwmpas' i dderbyn uwchraddiad band eang gigabit alluog, a ddylai ddod fel rhan o'r rhaglen Project Gigabit gwerth £5bn. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth eto am ba rai os unrhyw rai sydd wedi'u dewis.

## Partneriaethau Ffeibr Cymunedol yn yr ardal

Gall grŵp o berchnogion eiddo fynd at Openreach i ofyn iddynt osod rhyngrwyd Ffeibr drwy Bartneriaeth Ffeibr Cymunedol (PFfC). Mae'r rhain fel arfer ar gyfer ardaloedd nad oes modd iddynt gael band eang Ffeibr ar hyn o bryd ac nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghynlluniau Outreach ar gyfer uwchraddiad yn y dyfodol rhagweladwy.


Mae Openreach wedi rhoi trefniant cyd-ariannu yn ei le sy'n golygu eu bod nhw'n cyfrannu rhywfaint o'r costau a'ch cymuned yn talu am y gweddill.

**Nifer y Partneriaethau yn yr ardal leol.** **0**

**Statws** -

## Mathau o Gysylltiad Rhyngwyd

Atebion Openreach




ADSL yw'r hen safon sy'n defnyddio cebl copr o'r gyfnewidfa i'r adeilad. . Mewn mannau anghysbell o CSDd mae llai na 1Mbps

### Diffiniad


ADSL: *asymmetric (or asynchronous) digital subscriber line*

Mbps: sut y caiff cyflymder rhyngwyd ei fesur. Mae'r ffigur yn cynrychioli lled band, sef faint o ddata y gellir ei drosglwyddo bob eiliad. Datganodd OFCOM mai 10Mbps fydd y cyflymder isaf ar gyfer aelwyd gyffredin, er bod y rhan fwyaf o gynlluniau ariannu'n mynnu fod yn rhaid iddo fod yn 30Mbps.

Colled Signal ADSL – Cyflymder v Pellter









Mae 'Ffeibr i'r Cabinet' yn gysylltiad cyflymach gan mai dim ond o'r cabinet y mae'r cebl copr yn dod. Os yw adeilad o fewn 500 metr o'r cabinet (0.3 milltir) efallai y bydd 'GFAST' ar gael, mae hyn yn cynnig 300Mbps, neu fel arall bydd y cysylltiad yn dechrau ar 80Mbps. Gan fod ceblau copr yn y cysylltiad bydd y cyflymder yn dirywio y pellaf y mae'r adeilad o'r cabinet.

*Colled Signal Ffeibr i'r Cabinet – Cyflymder v Pellter*





Ffeibr i'r Adeilad yw'r cysylltiad gorau un heb fod angen unrhyw gebl copr. Mae cyflymder o 1000mbs ar gael ar unrhyw bellter.


Atebion amgen ac arafach

### 4g, diwifr a lloeren



Mae cysylltiadau 4g a di-wifr yn ddefnyddiol ar gyfer ardaloedd anghysbell. Mae systemau 4g a di-wifr sefydlog yn gyffredinol yn cynnig 30mbs. Mae'r system lloeren Starlink newydd ar hyn o bryd yn cynnig 100mbs am £84ym. Mae'r technolegau hyn i gyd yn cael eu heffeithio arnynt gan fynyddoedd, coed a'r tywydd.

## Cymhariaeth Cyflymder



Dim ond Ffeibr sy'n cynnig ateb na fydd pellter na thopograffeg yn effeithio arno.

Diwedd oes rhwydweithiau copr:

PSTN: *Public Switched Telephone Network*

Mae Openreach wedi datgan y bydd yr holl deffoni seiliedig ar gopr (PSTN) yn cael ei ddiffodd yn 2025, mae hyn yn golygu y bydd yr holl gysylltiadau rhyngwrwyd ac offer teleffoni seiliedig ar gopr yn stopio gweithio.

<https://www.openreach.com/upgrading-the-UK-to-digital-phone-lines>

Sut i gael cysylltiad Ffeibr

Os ydych am i'ch adeilad gael ei uwchraddio i Ffeibr, dylech gysylltu ag Openreach yn gyntaf i weld os ydynt yn gwybod am unrhyw uwchraddiadau a allent fod yn dod i'ch ardal chi yn y dyfodol agos.

<https://www.openreach.com/fibre-broadband>


Os ddim, yna ewch i wefan Llywodraeth Cymru

<https://gov.wales/broadband-in-wales/what-are-my-options>

Os nad oes yr un o'r gwefannau hyn yn dweud y byddwch yn cael uwchraddiad, y peth gorau fyddai ffurfio grŵp cymunedol a chasglu manylion yn eich cymdogaeth uniongyrchol i'w cyflwyno i Openreach ar gyfer sefydlu Partneriaeth Ffeibr Comunedol (PFfC). Argymhellir eich bod yn cyfyngu eich PFfC i 10-20 adeilad.

Efallai y bydd yn well gan Openreach osod eu ceblau ffeibr optig dros eu seilwaith copr ac o'r herwydd gall nifer yr adeiladau yn eich PFfC gynyddu'n sylweddol. Yn y ddelwedd isod mae'r Adeiladau ym Mhwynt Dosbarthu Un (Pwynt Dosbarthu – lle mae'r cebl trwchus yn rhannu'n geblau llai sy'n mynd i'r adeiladau) yn dymuno ffurfio PFfC er mwyn cael cysylltiad rhyngrwyd Ffeibr. Mae un tŷ ym Mhwynt Dosbarthu Dau eisiau ymuno hefyd. Os caniateir iddo ymuno, bydd Openreach yn ychwanegu'r holl dai ym Mhwynt Dosbarthu Dau i'r PFfC, a fydd wedyn yn cynyddu maint y PFfC. Rydym wedi gweld PFfC o 41 adeilad yn cynyddu i 181 adeilad oherwydd hyn. Nid oes gennym unrhyw ffordd o wybod pa dai sydd ar pa geblau a Phwyntiau Dosbarthu gan nad yw Openreach yn rhyddhau'r wybodaeth hon. Mewn ardaloedd lled-drefol nid yw hyn yn broblem gan fod llawer iawn o dai yn agos at ei gilydd gyda'r rhain i gyd yn derbyn cyllid a'r PFfC yn gyfoethog o ran talebau/arian parod. Mewn ardaloedd mwy gwledig mae llai o dai, llai o arian talebau a mwy o geblau i'w gosod. Mae'n bosibl na fydd yr arian talebau yn ddigon ar gyfer cost gosod y band eang Ffeibr.

## Ceblo Openreach



## Partneriaethau Ffeibr Cymunedol - y Broses

1. Rhestru cyfeiriadau perchnogion eiddo sydd â diddordeb
2. Cyflwyno rhestr o 10-12 eiddo i Openreach
3. Byddwch yn cael dyfynbris bras gyda rhestr wedi'i diwygio yn cynnwys yr eiddo y mae Openreach yn dweud y bydd yn rhaid eu cysylltu hefyd drwy eich PFFC chi.
4. Byddwch chi wedyn yn cysylltu â pherchnogion yr eiddo ychwanegol i weld a ydynt yn barod i ymuno.
5. Os ydych yn meddwl y bydd gan eich grŵp chi ddigon o arian talebau i dalu am y PFFC, byddwch yn cytuno y dylai Openreach symud ymlaen at y cam nesaf.
6. Bydd Openreach wedyn yn cynnal arolwg manwl i gyfrifo'r bil terfynol.
7. Os oes modd i chi dalu'r bil gyda'r talebau, bydd Openreach yn mynd at yr Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i weld pa eiddo sy'n gymwys i gael Talebau Gigabit.
8. Caiff y gymuned wedyn wybod beth yw gwir werth y talebau, y bil ar gyfer gosod yr offer ac os oes diffyg ariannol. Os oes diffyg, gofynnir i'r gymuned dalu hwn.
9. Os yw'r gymuned yn cytuno i fynd ymlaen â'r broses bydd Openreach fel arfer yn gofyn bod endid cyfreithiol (Cwmni Buddiannau Cymunedol) yn cael ei greu i weithredu fel cyfryngwr ar ran y gymuned. (os yw gwerth y daleb yn fwy na 130% o fil Openreach efallai y byddant yn hepgor y gofyniad hwn oherwydd eu bod yn teimlo'n ddiogel gydag amddiffyniad o 30%).
10. Y gymuned yn ymrwymo i'r cynllun
11. Gwneud cais am y talebau.
12. Os bydd y talebau'n talu mwy na 50% o'r bil, bydd y gwaith yn cael ei drefnu, os nad yw'r talebau'n talu 50% bydd Openreach yn gofyn am weddill y blaendal o flaen llaw.
13. Gall y broses gyflawn gymryd hyd at 12 mis o lofnodi'r contract.

### Opsiynau Cyllido

#### *Cynllun Taleb Gigabit Gwledig y DU*

Bwriad y cynllun hwn yw helpu preswylwyr i gael cysylltiad rhynggrwyd Ffeibr ac fe'i defnyddir fel arfer i ariannu Partneriaeth Ffeibr Cymunedol Openreach.

Gallai eiddo preswyl hawlio £1500 a busnes £3500 os ydynt yn derbyn 100Mbps neu lai, ddim yn rhan o unrhyw raglen uwchraddio arall ac wedi'u dosbarthu fel 'Ardal OFOM 3 Gwledig'. Anaml iawn y gall eiddo unigol fforddio cost gosod Ffeibr felly mae'n rhaid iddynt ffurfio grŵp gydag thai/busnesau eraill i gyfuno eu talebau <https://gigabitvoucher.culture.gov.uk/rural>

#### *Talebau Atodol Gigabit Cymru*

Gallai eiddo yng Nghymru fod yn gymwys am Grant Atodol sydd i bob pwrpas yn dyblu Cynllun Talebau'r DU. Bydd hyn yn cynyddu arian ar gyfer eiddo preswyl i £3000 ac ar gyfer eiddo busnes i £7000. Mae'n rhaid i'r eiddo/busnesau fod â llai na 30Mbps i fod yn gymwys am yr arian atodol hwn.

#### *Cynllun Allwedd Band Eang Cymru*

Mae'r cynllun hwn yn darparu grant bychan ac fe'i defnyddir fel arfer i dalu am 4g a chysylltiadau diwifr sefydlog. Bydd hyn yn talu £400 am 10Mbps ac £800 ar gyfer cysylltiad 30Mbps. Mae'n rhaid i'r cysylltiad a ddarperir ddyblu cyflymder presennol eiddo.

#### *Cronfa Band Eang Lleol*

Bydd y gronfa'n talu am gysylltiadau 30Mbps a throsodd. Mae'n rhaid i'r prosiect fynd allan i dendr.

#### *Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol*

Bydd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Band Eang Cyffredinol (USO) yn rhoi hawl i bobl yn y DU wneud cais am gysylltiad band eang derbyniol a fforddiadwy o 10Mbps. O dan y Rhwymedigaeth bydd tai a busnesau cymwys yn gallu gwneud cais am gysylltiad ar yr amod nad yw'r gost yn ddim mwy na £3,400. Ni fydd yn rhaid i ddefnyddiwr neu fusnes gyfrannu at gost y cysylltiad os nad yw dros y trothwy o £3,400. Dros y lefel hynny bydd modd cysylltu eiddo o hyd ar yr amod eu bod yn talu'r gost ychwanegol neu'n gwneud peth o'r gwaith eu hunain er mwyn dod â'r costau i lawr. Fodd bynnag ni ddylai unrhyw un wirioni gormod am yn y cynllun hwn gan fod BT wedi dod o hyd i 'fylchau' a hefyd wedi cael dwy flynedd i fynd i'r afael â meysydd problemus. Bydd y rhan fwyaf o hawlwyr yn cael cynnig llwybrydd 4G gydag antena allanol gyda thariff o £45 y mis (yr uchafswm y mae OFCOM yn ei ganiatáu o dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol). Mae contractau tebyg ar gael am bris llawer is o fannau eraill.

<https://www.ofcom.org.uk/phones-telecoms-and-internet/advice-for-consumers/broadband-uso-need-to-know>